

Adroddiad y Prif Arholwr

Arholiadau Aelodaeth Gyflawn Hydref 2016

Mae Aelodaeth Gyflawn yn cyfateb i aelodaeth gwbl broffesiynol lle nad oes ar yr ymgeisydd angen unrhyw oruchwyliaeth.

Disgwylir iddo fedru cyfieithu'n rhugl ac yn gywir, ysgrifennu mewn sawl arddull a chywair yn ôl yr angen a gallu ymdopi ag iaith haniaethol neu dechnegol. Disgwylir iddo hefyd feddu ar ddealltwriaeth glir o gefndir diwylliannol y ddwy iaith. Ar ôl iddo gwblhau ac adolygu ei gyfieithiadau, ni ddylai fod angen eu diwygio na'u cywiro.

Adran 1 – Cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg

Nifer yr ymgeiswyr: 7

Llwyddo: 2

Er mai dau ymgeisydd yn unig a fu'n llwyddiannus yn y rownd hon, roedd mwyafrif y lleill yn bendant o fewn cyrraedd i llwyddo, gan mai un elfen yn unig o'u gwaith, yn amlach na pheidio, oedd wedi llithro o dan y safon ofynnol. Da yw gweld bod mwyafrif yr ymgeiswyr ar y lefel hon, felly, yn amlwg yn dod i ddeall beth yw safon cyfieithu proffesiynol, a bod eu gwaith yn cynnwys llawer o bethau da iawn. Yn wir, roedd y gwaith yn gyffredinol o safon uchel, a'r cyfieithiadau, ar y cyfan, yn darllen fel darnau Cymraeg gwreiddiol. Dyma rai enghreifftiau o'r mynegiant Cymraeg graenus a gafwyd:

Mae darllen llyfrau yn uchel i blant yn tanio eu dychymyg ac yn ymestyn eu dealltwriaeth o'r byd.

Er bod bywyd rhiant yn aml yn hynod brysur, dylech geisio darllen gyda'ch plentyn o leiaf unwaith y dydd a dewis amser rheolaidd i wneud hynny.

Mae'n debygol y byddai'r rhanbarth wedi elwa

Yn y refferendwm yn gynharach eleni, pleidleisiodd 182,665 o bobl Cernyw o blaid gadael yr UE, er bod Brwsel wedi buddsoddi miliynau lawer o bunnoedd yn yr ardal lle maent yn byw ac yn gweithio.

Rhowch arweiniad i'ch plant

Mae eu dadleuon yn rhai cyfarwydd

Ond peidiwch â digalonni os byddwch yn colli diwrnod neu'n methu â chadw at yr un amser bob tro.

Mae'n eu helpu i feithrin sgiliau iaith a gwrando

Ymhlith y prosiectau blaenllaw a gwblhawyd gyda chymorth yr UE

Roedd mwyafrif yr ymgeiswyr, fel y nodwyd eisoes, yn agos iawn at y lan, ond mewn arholiad ar y lefel hon, mae'n rhaid gallu cynnal y safon ar hyd y ddau ddarn, ac yn anffodus, cafwyd rhai gwallau oedd yn golygu na ellid barnu'n gwbl hyderus fod yr ymgeiswyr hynny'n barod i fod yn gyfieithwyr annibynnol. Er mai cymharol ychydig oedd y gwallau hyn yng ngwaith bron pob un o'r ymgeiswyr, ar y lefel hon, mae'n rhaid prawfddarllen yn fanwl a thrylwyr er mwyn sicrhau nad oes gwallau o'r math hwn yn y gwaith a gyflwynir.

Dyma rai enghreifftiau:

rhythm and melody of language

Pan mae rhythm ac alaw yn dod yn rhan o fywyd plentyn

learn to love the sound of language

Mae plant yn dechrau dwli ar sŵn iaith

on a regular basis

ar sylfaen reolaidd

a glitzy university campus

campws prifysgol afradlon

super-fast broadband

band llydan brys

Er bod modd maddau ambell wall cywirdeb o dan amodau arholiad, siom bob amser yw gweld gwallau esgeulus fel y canlynol yn brigo i'r wyneb:

ysgrifennedig

digaloni

genhedlaethol

datblygiad campws brifysgol fendigedig

gofalu am ein hunain

Un o'r gwallau amlycaf y tro hwn oedd tuedd i gynnwys 'i' ymwithiol, fwy na thebyg oherwydd dylanwad patrwm y Saesneg, e.e.:

dysgu i ddarllen / dysgu i gerdded

dysgu i garu sŵn iaith

Eto, ni ddisgwyliid gweld gwallau fel hyn ar y lefel hon, ond gwaetha'r modd, roedd yr union wall a nodwyd uchod i'w weld yng ngwaith nifer o'r ymgeiswyr.

Cafwyd hefyd rai gwallau cystrawennol eraill, e.e.:

Trwy ddarllen straeon sydd o ddiddordeb iddyn nhw, ond y maent y tu hwnt i'w lefel darllen.

Ond peidiwch â digalonni os ydych yn colli diwrnod neu beidio â chadw at eich amserlen bob tro.

Siom, felly, yw gorfod dweud yn y rownd hon eto, fel sawl tro yn y gorffennol, nad yw nifer yr ymgeiswyr a lwyddodd yn adlewyrchiad teg o allu'r rhai a gyflwynodd waith yn yr arholiad. Hynny yw, roedd elfennau gorau gwaith bron pawb o'r ymgeiswyr yn cyrraedd y safon, ond gwaetha'r modd, nid oeddent yn llwyddo i gynnal y safon honno ar hyd y papur.

Fel mor aml, felly, wrth longyfarch y rhai a lwyddodd, rhaid annog yr ymgeiswyr aflwyddiannus i sylwi'n fanwl ar yr elfennau a'u rhwystrodd rhag llwyddo y tro hwn, a gofalu eu bod yn darllen eu gwaith yn fwy manwl fyth cyn ei gyflwyno, er mwyn medru chwynnu pob esgeulustod o'u cyfieithiadau, a llwyddo ar y lefel hon y tro nesaf.

Adran 2 – Cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg

Nifer yr ymgeiswyr: 2

Llwyddo: 1

Wrth droi at y cyfieithu i'r Saesneg, er mai nifer fach safodd yr arholiad y tro hwn, braf yw nodi, er mai un yn unig a fu'n llwyddiannus, fod gwaith y ddau ymgeisydd yn cynnwys cyffyrddiadau da a chyfieithu safonol.

Dyma rai enghreifftiau o gyfieithu llwyddiannus a welwyd yn y papurau:

sylwadau deifiol

scorching observations

hard-hitting comments

gan ddatguddio'n raddol

gradually laying bare

mewn corwynt o berfformiad

in a barnstorming performance

in a whirlwind performance

perthynas wresog â'r dorf

a warm rapport with the crowd

sy'n egluro rhywfaint ar agwedd Llywodraeth Prydain

which goes some way towards explaining the British Government's attitude

dadl anonest
bogus argument

ffres a deniadol
fresh and engaging

cyfuniad peryglus
dangerous convergence

trwy leihau'n sylweddol y gwariant
by slashing its expenditure

Dengys enghreifftiau fel y rhain allu i gyfieithu mewn modd meddylgar sy'n sicrhau bod y gwaith yn dilyn patrymau naturiol y Saesneg, a nodweddid gwaith y ddau ymgeisydd, ar ei orau, gan enghreifftiau fel hyn.

Yn anffodus, fodd bynnag, cafwyd hefyd rai enghreifftiau o gyfieithu oedd yn llithro o dan y safon, e.e.:

Radio Cymru
Radio Wales [gwall sy'n dangos diffyg dealltwriaeth difrifol o faterion Cymreig]

fflachiadau lu
brief glimpses

ffraethineb chwim
swift facetiousness

at fonllefau o chwerthin
to laughing assents ['leaving the audience in stitches' fuasai'r trosiad naturiol yma]

gwir berygl rhethreg 'gwerth am arian'
the real pitfall of the talk of 'value for money'

Trueni mawr bod enghreifftiau fel y rhain yn amharu ar waith sydd fel arall yn cynnwys llawer o bethau addawol, ac yn atal y cyfieithiad terfynol rhag bod yn gyfanwaith llwyddiannus.

Fel mor aml, pwrpasol yw atgoffa'r holl ymgeiswyr ar y lefel hon, bod disgwyl i'w gwaith gyrraedd safon gwbl broffesiynol, ac felly bod angen iddynt fireinio'u sgiliau golygu a phrawfddarllen, yn ogystal â'u gallu i drosi o'r naill iaith i'r llall.

Wrth gloi fy adroddiad, carwn ddiolch unwaith yn rhagor i'r holl farcwyr ac i staff y swyddfa am eu gwaith trylwyr a'u holl gymorth a'u cefnogaeth i'r Prif Arholwr.

Fiona Gannon
Tachwedd 2016